**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 444**
**19 Tachwedd, 2020 – Cyfarfod Zoom**

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| **Staff S4C:** | | |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) – Eitemau 5 & 6 |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Catrin Whitmore | (Pennaeth Adnoddau Dynol) – Eitem 8 |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Ymddiheuriadau** | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C. Roedd wedi derbyn ymddiheuriad gan OD.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau. Atgoffodd pawb i ddatgan eu diddordeb a bod y wybodaeth yn gyfredol. Datganodd RhW ei ddiddordeb yn Ofcom.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd Unedol S4C ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd RhW ei adroddiad ar lafar.

Roedd y DCMS wedi derbyn nifer da o geisiadau ar gyfer aelodau anweithredol y Bwrdd. Byddai'r sifft yn digwydd erbyn diwedd y mis gyda'r cyfweliadau wythnos cyn y Nadolig. Byddai'r argymhellion wedyn yn mynd at Weinidogion DCMS.

Nododd RhW fod rhywfaint o ymateb wedi bod yn y wasg ddiweddar yn sgil ei gyfweliad gyda Golwg 360.

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod.

**Diweddariad Covid-19**

Roedd y symud mewn i 'lock down' ym mis Hydref yn gymharol syml i S4C. Yn weithredol roedd amryw o staff a chyflenwyr wedi gorfod delio gyda phrofion positif ond nid oedd wedi cael effaith ar y gwasanaeth hyd yn hyn. Roedd OE yn poeni am gydnerthedd S4C gyda'r Gaeaf yn nesáu ac roedd EM yn edrych ar y sefyllfa o ran rhedeg Parc Tŷ Glas a'r gwaith yn Sgwâr Canolog.

**DCMS**

Roedd llythyr ffurfiol wedi dod gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn â'r broses Ffi'r Drwydded yn cadarnhau bydd S4C ar wahân i'r BBC fel rhan o'r ceisiadau a'r trafodaethau. Roedd hefyd newyddion positif o'r DCMS wrth geisio cario tan wariant achos Covid-19 mewn i'r flwyddyn ariannol nesa, er bydd angen caniatâd y Trysorlys hefyd.

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

**[Crynodeb:** Roedd y Llyfrgell wedi cysylltu i ddweud eu bod yn awyddus i S4C fod yn rhan o gynllun yr archif deledu. Nodwyd bod ein swyddogion yn parhau i drafod gyda'r Llyfrgell i ddysgu mwy am yr oblygiadau ariannol a'r buddion i wasanaeth S4C.]

**Cydleoli**

**[Crynodeb:** Amlinellodd OE y sefyllfa ddiweddaraf gyda'r prosiect. Eglurodd bod nifer o broblemau wedi codi sydd angen sylw cyn y bydd modd symud ymlaen. Roedd y BBC yn sôn am ddiwedd mis Ionawr ond roedd angen cynllun ac amserlen glir cyn penderfynu ar ddyddiad penodol.]

**Cyflenwad Statudol y BBC**

**[Crynodeb:** Nododd OE byddai Bwrdd y BBC yn trafod y mater a disgwylir cynnig gan Gadeirydd y BBC wedi hynny.]

4. **Amrywiaeth a Chynhwysiant**

**[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am amrywiaeth ar y sgrin. Gofynnwyd a oedd proses datblygu cyfleoedd i gyfranwyr newydd talentog. Nodwyd nad oedd polisi ffurfiol ond roedd y comisiynwyr yn trafod yn anffurfiol. Roedd hwn yn fater hefyd byddai'r Swyddog Amrywiaeth newydd yn edrych arno.]

5. **Adroddiad Ariannol Chwarter 2**

Ymunodd ShW a chyflwynodd yr adroddiad ariannol am y cyfnod derfynodd Medi 2020.

**[Crynodeb:** Roedd newidiadau o fewn y flwyddyn, gan gynnwys y cyllid cynnwys a marchnata a chostau staffio. Nodwyd bod arbedion mewn perthynas â chostau gan nad yw staff yn teithio.

Holodd AG am oblygiadau aros ym Mharc Tŷ Glas. Roedd yn weddol gost niwtral gan nad ydym yn talu rhent yn Sgwâr Canolog ar hyn o bryd.]

Cafwyd cyfarfod cychwynnol ar gyfer cynllunio rhaglen waith gyda'r NAO ar gyfer 2020-21. Bydd cynllun gwaith yr NAO yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn newydd i'r Pwyllgor Archwilio. Diolchodd RhW am yr adroddiad.

6. **Adroddiad Sicrwydd Ariannol i'r BBC**

Cyflwynodd ShW ac OLl yr Adroddiad Sicrwydd Ariannol sydd i'w gyflwyno i'r BBC. Nododd ShW ei bod wedi ychwanegu geiriad sy'n amlinellu cynllun y llywodraeth i newid statws TAW S4C.

Dywedodd OLl ei fod wedi cynnwys cyflenwad statudol y BBC fel mater i'w nodi eleni. Cytunwyd bod hefyd angen ychwanegu cydleoli fel mater yn yr adroddiad. Byddai cyfarfod gyda Phwyllgor Archwilio'r BBC yn dilyn danfon yr adroddiad atynt.

7. **Dathliadau Pen-blwydd S4C yn 40**

Dywedodd GW byddai S4C yn 40 mlwydd oed ar 1 Tachwedd 2022. Roedd y papur yn ystyried a ddylid dathlu'r pen-blwydd, ac ym mha ffordd.

**[Crynodeb:** Awgrymwyd y dylai'r dathliadau fod yn rhesymol gan osgoi mynd dros ben llestri. Yr awgrym oedd cynnig rhywbeth ar gyfer y sgrin, ac ambell ddigwyddiad fel cyngerdd.

Roedd HHE yn gweld hwn yn gyfle perffaith i ehangu'r gwaith partneriaethau gydag ysgolion. Awgrymwyd edrych ar y posibiliad o greu pecyn gyda'r cwricwlwm newydd. Adroddwyd fod trafodaethau am brosiect archif wedi bod yn digwydd gydag Ysgol Bro Edern er mwyn cefnogi'r cwricwlwm.

Roedd RhW yn awyddus i unrhyw ddathliadau fod yn rhesymol a chymesur. Gwneud ychydig a'i wneud yn dda oedd yn bwysig yn lle llanw'r flwyddyn gyda dathliadau. Roedd yn gyfle i ddefnyddio a churadu cynnwys o'r archif, yn debyg i'r hyn roedd Heno Aur wedi'i wneud.]

8. **Setliad cyflog 2020-21**

Ymunodd CW â'r cyfarfod a chyflwynodd bapur yn cynnig setliad cyflog blynyddol i S4C yng nghyd-destun cymaryddion y farchnad.

**[Crynodeb:** Ers cyflwyno'r papur roedd y BBC wedi penderfynu peidio rhoi setliad eleni yn sgil toriadau ac ati.

Gan gymryd i ystyriaeth yr holl oblygiadau a'r dyfalu yn y farchnad llafur am setliad y sector cyhoeddus, roedd y papur yn argymell cynnydd cyflog blynyddol o 1.6%. Credwyd ei fod yn bwysig i S4C gynnig telerau teg i'w staff er mwyn cystadlu yn y farchnad allanol gan gofio bod cyflogau S4C yn llai na'r BBC. Cymeradwywyd yr argymhelliad yn unfrydol.]

9. **Bwrdd Masnachol**

Cyflwynwyd cofnodion y Bwrdd Masnachol.

**[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth fer am hysbysebion digidol a nododd RhW fod y DCMS yn disgwyl i'r PSBs edrych ar gyfleoedd masnachol. Roedd angen trafodaeth lawn maes o law o ran S4C Clic.

Awgrymodd OE fod angen cadw at y cynllun masnachol presennol gyda'r cymysgedd o fuddsoddiadau.]

10. **Pwyllgor Archwilio**

Cyflwynwyd adroddiad byr o Bwyllgor Archwilio mis Tachwedd, gan nodi fod y prif ffocws wedi bod ar gydleoli, gyda'r BBC yn cyflwyno diweddariad. Yn ogystal fe gafwyd trafodaeth am y setliad cyflog.

11. **Adolygiad Cynnydd gan yr Archwilwyr Mewnol**

Nodwyd fod TIAA wedi mynd drwy'r holl argymhellion hanesyddol a dilyn i fyny gyda nifer sylweddol wedi'u cwblhau. Roedd y Bwrdd yn hapus i nodi'r cynnydd.

12. **Rhaglen Waith y Bwrdd**

Adroddwyd fod angen mwy o waith ar amserlen y Bwrdd a'i Bwyllgorau.

13. **Cofnodion Cyfarfod 15 Hydref 2020**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 443 a gynhaliwyd ar 15fed Hydref 2020. Cymeradwywyd y cofnodion fel rhai cywir gan y Bwrdd. Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi o'r cofnodion.

14. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Nodwyd y gofrestr.

Trafodwyd y sefyllfa gyda chytundeb golygyddol y BBC, a nodwyd nad oedd fawr o bwrpas llunio cytundeb ar gyfer y misoedd sy'n weddill, ond yn hytrach ganolbwyntio ar y cyfnod ar ôl 2022. Byddai angen i'r cytundeb hynny gymryd i ystyriaeth trefniadau newydd o ran Newyddion ac ati.